

Darganfod

Cefn Gwlad Corwen

Pump o deithiau cerdded sy'n datgelu **harddwch**, **hanes** a **bywyd gwylt** Corwen



Darganfod

Cefn Gwlad Corwen


Mae tref Corwen yn cysgodi o dan greigiau Mynydd y Berwyn, lle mae dyffryn llydan yr Afon Ddyfrdwy yn cyfarfod â Dyffryn Edeyrnion cyn ymddolennu i'r dwyrain tua thref Llangollen. O goedlannau derw i hen reilffyrdd ac olion hanesyddol, mae yna rywbeth i bawb yng Nghorwen.

O edrych i mewn i hanes Corwen ceir hanesion am Owain Glyndwr, eglwys ganol oesol yr Holl Saint yn Llangar, un o fryngeyrydd pwysicaf Oes yr Haearn a chymuned Gristnogol sydd â'r cofnod cyntaf ohoni yn y flwyddyn 1222.

Tref bwysig y goets fawr oedd Corwen, ar y Ffordd o Lundain i Gaergybi. Bu'n datblygu'n araf nes daeth y rheilffordd yng nghanol yr 19 fed ganrif gan greu tref farchnad ffyniannus. Pan ddaeth y rheilffordd i ben yng nghanol yr 20fed ganrif roedd Corwen eisoes yn ganolfan fusnes brysur ac yn lle poblogaidd i ymwelwyr. Heddiw, mae'n parhau'n gymuned leol lewyrchus sy'n swatio ymhlith golygfeydd syfrdanol.

Lluniwyd y daflen hon yn gymorth ichi ganfod ychydig o hanes a bywyd gwyllt diddorol ardal wledig Corwen ar deithiau cerdded sy'n hawdd eu cyrraedd o fewn y dref a'i chyffiniau.

I gael gwybod mwy cysylltwch â [Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych](#)


 01352 810614 Ebost: loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk
www.denbighshire.gov.uk/countryside

I gael gweld mwy o deithiau cerdded yn yr ardal hon ewch i

www.llwybraudyffryndyfrdwy.com

I gael gweld y llwybrau beicio ewch i www.ridetheclwyds.com neu www.ridehiraethog.com I gael mwy o wybodaeth ar ble i aros a beth i'w wneud ewch i wefan www.borderlands.co.uk a www.corwen.org

Er gwneud pob ymdrech i ofalu fod y llyfryn hwn mor gywir ag y bo modd, ni all na'r awduron na'r cyhoeddwyr dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ganlyniadau sy'n deillio ohono.



Lleoliad Corwen



CLODDIAD CORWEN CUTTING

Cloddiad Corwen

Y ffordd orau i gyrraedd yr hen lein yw o'r Ganolfan Hamdden. Dilynwch y llwybr i lawr yr hen Gloddiad Reilffordd gan fynd ymlaen dros y lôn wledig. Bydd y llwybr caled sy'n mynd ar hyd pen y drychfa yn eich tywys mewn cylch byr yn ôl i'r Ganolfan Hamdden.

Parcio: Y Ganolfan Hamdden oddi ar ffordd B5437 (Neu'r maes parcio yng Nghanol y Dref)

Pellter: 1 filltir gylch

Amser: 30 munud


Cyfleusterau agosaf: Y Ganolfan Hamdden

Yr Hen Reilffordd

Ar y rhan yma o'r lein y daeth y trên cyntaf i Gorwen o Ruthun ym mis Awst, 1864. Nid oes unrhyw amheuaeth i ddyfodiad y trên gael effaith ddramatig ar y dref gan agor cyfle i ffermwyr brynu a gwerthu mewn marchnadoedd oedd yn bellach i ffordd o lawer. Bu'n ddechrau'r diwedd i'r porthmyn. Yn 1891 roedd mwy na 50 o bobl yn gweithio mewn swyddi oedd yn gysylltiedig â'r rheilffordd.



Erbyn hyn mae'r goedlan, coed derw a helyg ar y cyfan, yn hafan i'r bywyd gwyllt yn enwedig i'r adar. Edrychwch am y llinos, y llinos werdd a'r nico. Yn aml iawn, gwelir y bwncathod yn cylchu ar yr awyr thermol yn uchel uwchben y drychfa, gan chwilio am ysglyfaeth.





Caer Drewyn

Dilynwch arwyddion y Fryngaer am daith gerdded o ddwy filltir i Gaer Drewyn a'r Cloddiad

Parcio: Y Ganolfan Hamdden oddi ar Ffordd B5437 (Neu'r maes parcio yng Nghanol y Dref)

Pellter: 2 filltir gylch

Amser: 1-2 awr

Cyfleusterau agosaf: Y Ganolfan Hamdden

Yn ystod Oes yr Haearn, rywbryd rhwng 600 CC a 43 OC, yr adeiladwyd y gaer sydd ar y bryn uwchben Corwen. Yn annhebyg i geyrydd eraill yn yr ardal, nid cloddiau a ffosydd pridd sydd yng Nghaer Drewyn ond muriau mawr o gerrig. Y tu mewn i'r fryngaer, mae olion hen sylfeini cerrig y tai crynion. Yn ôl y

chwedl, roedd cariad hardd i Drewyn y Cawr yn arfer godro'i gwartheg yma.

Ni chafodd y safle ei gloddio'n archeolegol. Dyna pam mae nifer fawr o gwestiynau heb eu hateb ynghylch ei hanes.

Pam mae tyllau crwn rhyfedd yn rhai o'r muriau?


O ble daeth y cerrig? Nid oes unrhyw chwareli mawr yn yr ardal a dim awgrym o ffosydd, ac eto fe ddefnyddiwyd tunelli o gerrig yma!

Mae Caer Drewyn yn Heneb restredig. Caiff ei gwarchod yn safle archeolegol pwysig yng Nghymru.

Mewn manau, mae cennau prin iawn yn gorchuddio'r cerrig hyn.

Buont yn tyfu yn y cynefin caregog hwn am dros 2000 o flynyddoedd.







Pen y Pigyn

Cysegrwyd yr eglwys i St Mael a St Sulien, ac mae'n llawn hanes. Er iddi gael ei hadnewyddu lawer gwaith, mae nifer o olion y canoloesoedd yn parhau. Chwiliwch yn y fynwent am y cerrig penlinio anghyffredin wrth droed rhai o'r beddi; beddargraff i yrrwr injan; a marc cylllell ar y garreg uwch ben porth y de, sy'n ôl cylllell a daflodd Owain Glyndwr, yn ôl y chwedl.

Parcio: Y prif faes parcio yn nhref Corwen. Ewch am yr hen faenordy neu'r eglwys i gychwyn y daith gerdded.

Pellter: 2 filltir taith linellol neu gylchol

Amser: 1 - 2 awr

Cyfleusterau agosaf: Canol y dref

Yn y goedlan, gallwch weld cerrig yr Orsedd a godwyd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 1919.


Ar y cyfan, derw'r ucheldir yw'r coed yma, sy'n goed prin a gwerthfawr ac yn cynnal llawer math o fywyd gwyllt.

Codwyd y gofeb sydd ar ben y goedlan yn 1863 i goffau priodas Tywysog Cymru

ar y pryd. Daeth yn Edward VII wedyn. Adnewyddwyd yn 1911 ar gyfer arwisgiad ei wŷyr.

Gwelwyd yr wiwer goch - gwiwer sy'n frodorol i Brydain - yng Nghoedwig Cynwyd, tua dwy filltir i ffwrdd. Gwelwyd hi yn y goedlan hon hefyd.





Dilynwch 'Llwybr y Gyllell', ymlacio yn y lle picnic, a mwynhau'r dringo graddol i'r gofeb am olygfeydd gwych o dref

Corwen, Dyffryn yr Afon Ddyfrdwy a Dyffryn Clwyd.





Corwen - Rheilffordd Cynwyd

Dilynwch y dreif sydd ag wyneb o gerrig mân arni o'r Ffordd B4401 drwy Stamp i'r hen reilffordd, troi i'r dde ac ymlaen ar hyd yr hen lein gan fwynhau'r Afon Ddyfrdwy a'r coed ynn. Gallwch fynd ar hyd y llwybr hwn i Gorwen, ond gofynnir ichi gadw at y llwybr troed drwy'r gerddi preifat. Wrth ichi ymuno â'r rheilffordd o Stamp, gallwch ddewis cerdded i'r chwith ac i Gynwyd ar hyd rhan o Lwybr Gogledd y Berwyn.

Parcio: y gilfan ar y B4401 ger Stamp.
Croeswch y ffordd i gychwyn y daith.
Pellter: 2 filltir linellol
Amser: 1 - 2 awr
Cyfleusterau agosaf: Canol tref Corwen

hefyd. Mae capel y Rhug un filltir i'r gogledd orllewin o Gorwen oddi ar y ffordd B4401. Mae ar agor o Ebrill tan Fedi.

Yr Hen Reilffordd

Agorwyd y rhan hon o'r lein yn y flwyddyn 1866 gan ddod â'r trên o Gorwen i'r Abermo drwy Gynwyd a'r Bala.

Bywyd Gwylt


Cafodd y coed a'r glaswellt gyfle i ffynnu ers i'r lein gau yn yr 1960 au ac erbyn hyn ceir yma gynefinoedd pwysig i'r blodau gwylt, yr adar a'r mamaliaid. Yr Afon Ddyfrdwy yw cartref y dyfrgi, glas y dorlan, a'r pibydd. Mae'r fulfran a'r crëyr yn ymwelwyr cyson.

Eglwys Llangar

Yn ôl dogfennau o 1730, yr enw gwreiddiol ar yr eglwys hon oedd Llan-Garw-Gwyn. Yn ôl y chwedl, fe redodd carw gwyn o safle'r eglwys ac ôl ei draed a ddynododd ffiniau'r plwyf.

Ceir y cofnod cynharaf o'r eglwys yn 1291. Adnewyddwyd yn gelfydd dros ben ac mae nifer o'r murluniau o'r 14eg Ganrif.

I ymweld â'r Eglwys, cysylltwch â Chapel y Rhug cyfagos - lle sy'n werth ymweliad



Gallwch wylïo'r adar o'r guddfan adar a fu'n hen gwt reilffordd ar un adeg.





Gro Isa

Taith hawdd, wastad a hamddenol ar lwybr glas gydag arwyddion arno at ddarn o dir anghyffredin ar lannau'r Afon Ddyfrdwy. Am fod tir amaeth o'i chwmpas, mae ardal glaswelltir Gro Isa yn hafan i'r adar, y gloynnod byw a'r mamaliaid bach.

Parcio: Y prif faes parcio yn nhref Corwen. Edrychwch am yr arwydd yn ymyl y llain fowlio sy'n dangos man cychwyn y daith gerdded hon.

Pellter: 1½ milltir, taith gerdded linellol

Amser: 1 awr

Cyfleusterau agosaf: Canol y dref


Ar hyd rhannau o ffin Gro Isa gwelir cerrig llechi anferth ar eu sefyll - dyma ffordd o nodi'r terfynau sy'n hynod i ardal Corwen ac i stad y Rhug yn arbennig. Efallai mai'r arfer sy'n gyffredin yn ardal Gwynedd a fu'n ddylanwad yma. Dychmygwch y nerth braich oedd ei angen i godi'r wal derfyn hon, mae hanner maint y garreg sydd i'w gweld o'r golwg o dan y ddaear.

Erbyn hyn fe reolir y safle yn ddol i'r cyhoedd ei mwynhau. Mae'r cymysgedd o goed, llwyni a glaswellt yn gynefin gwerthfawr. Daw arogl hyfryd y coconyt o flodau'r eithin.

Daw'r enw Gro Isa o'r gro mân sydd ar wely'r afon, nodwedd sy'n arbennig i'r rhan hon o'r Afon Ddyfrdwy. Mae'r Afon Ddyfrdwy yn enwog am eog, brithyll a llysywen bendoll. Dywedir ei bod yn un



o afonydd gorau Prydain am y penllwyd. Am ei fod yn hoffi dŵr cyflym gyda chwrent dwfn a gwely gro, mae



presenoldeb y penllwyd yn arwydd pendant o ddŵr pur. Ar lan y dŵr, ceir cartref da i'r dyfrgi a'r llygoden y dŵr.

Rhan o'r ffordd ar hyd y llwybr hwn

mae hen domen sbwriel Corwen, y tu ôl i'r cae chwarae. Mae'n amlwg o'r lludw a'r hen boteli diddorol sy ar y llwybr.



Corwen drwy'r oesoedd...

6000
o flynyddoedd yn ôl

4000 o o
flynyddoedd yn ôl

2600
o flynyddoedd yn ôl

2000
o flynyddoedd yn ôl

1500
o flynyddoedd yn ôl



600
o flynyddoedd yn ôl

150
o flynyddoedd yn ôl

Heddiw

Efallai bod y ffermwyr cynnar yn y cyfnod Neolithig wedi adeiladu Cwrsws - llwybr defodau- yn ymyl yr afon ar ochr orllewinol Corwen.

Roedd pobl Oes yr Efydd yn claddu'u meirw mewn crugiau claddu i'r gorllewin o Gorwen. Ni wyddys ble roeddynt yn byw.

Adeiladwyd Caer Drewyn - Caer Oes yr Haearn -. Defnyddiwyd Moel Fodig yn anheddle tua'r un cyfnod.

Dechreuwyd adeiladu tref Corwen yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid. Ym Mhenrhos, i'r gorllewin o Gorwen, roedd yna wersyll cyrch Rhufeinig.


Daeth goleuni i'r Oesoedd Tywyll erbyn hyn. Efallai bod yr Eglwys, a gysegrwyd i'r ddau sant o'r 6ed ganrif St. Mail a St Sulien, yn eglwys gynnar iawn o'r cyfnod cyn y 10fed ganrif.

Erbyn y Canol Oesoedd, o tua 1200 AD ymlaen roedd tref Corwen yn tyfu. Ym mynwent yr eglwys mae croes o'r 12fed Ganrif. Yn Eglwys Rhug, mae'r Mwnt yn ganoloesol, a Ffynnon Sulien hefyd. I orllewin Corwen, mae Plas Uchaf yn dy canoloesol pwysig.

Ganed Owain Glyndwr gerllaw, gan gael ei enwi ar ôl pentref Llansantffraid Glyndyfrdwy (Carrog erbyn hyn). Cyhoeddwyd yn Dywysog Cymru ar 16 Medi 1400, cychwyn rhyfel a barhaodd am 15 mlynedd.

Datblygodd Corwen, fel y mae heddiw, o'r 18fed ganrif ymlaen. Tyfodd Capel y Rhug, y stad a'r Tloty wrth i'r drafnidiaeth, y ffordd a'r rheilffordd wella.

Am fod llawer o'r ardal wledig hon mor arbennig, gan gynnwys yr archeoleg, y ddaeaereg a'r bywyd gwylt sy'n creu'r dirwedd mor arbennig, caiff ei gwarchod o dan y ddeddf. Mae'r wlad o gwmpas Corwen yn gynefin i'r dyfrgi, y wiwer goch, cannoedd o rywogaethau o adar a llawer iawn mwy.




- Byddwch yn ddiogel - cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi as eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Ewch â'ch sbwriel gartref, a gofalwch warchod bywyd gwylt
- Cadwch eich cid an reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill

Ewch i

www.llwybraudyffryndyfrdwy.com

I lwytho y rhain i lawr



Cerdded yng Nghefn Gwlad
Sir Dinbych

www.clwydianrangeaonb.org.uk